# Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teulu

## Canllaw i Blant a Phobl Ifanc



Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Department for Education

# Beth yw'r canllaw hwn?

## Mae'r canllaw hwn yn nodi pa gamau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i wella'r System Cyfiawnder Teulu.

Mae'r System Cyfiawnder Teulu yng Nghymru a Lloegr yn helpu pobl i ddelio â phroblemau teulu sydd weithiau'n gorfod cael eu datrys yn y llys. Er enghraifft, mae'n gwneud penderfyniadau a oes angen i blant gael eu rhoi mewn gofal er mwyn aros yn ddiogel. Mae hefyd yn gwneud penderfyniadau ynghylch beth ddylai ddigwydd pan fydd rhieni'n gwahanu a phan na allant gytuno ar sut i ofalu am eu plant.

Mae'r system yn cynnwys barnwyr sy'n gwneud y penderfyniadau yn y llys, gweithwyr cymdeithasol a phobl eraill, gan gynnwys pobl sy'n cynnig cyngor i'r llysoedd neu sy'n gwneud yn siŵr bod barn y plant yn cael ei gyfleu yn y llys.

Fe sefydlwyd yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu gennym yn 2010, i weld sut mae'r System Cyfiawnder Teulu yn gweithio. Bu'r panel yn siarad ag arbenigwyr, pobl sy'n gweithio yn y llysoedd teulu (er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol), rhieni, plant a phobl ifanc. Mae wedi awgrymu ffyrdd y gallwn wella'r system i'r plant a'r teuluoedd sydd yn y system. Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r newidiadau y byddwn ni'n eu gwneud.

Cewch wybodaeth fanylach am y newidiadau sydd ar y gweill yn https://www.education.gov.uk/publications/



# Pam y mae angen inni newid pethau?

Bob blwyddyn, mae miloedd o deuluoedd â phroblemau anodd iawn yn dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Teulu. Mae'n gallu bod yn amser pryderus ac anodd iddynt. Fe all fod yn brofiad poenus iawn i deuluoedd pan fydd llys yn penderfynu a ddylai plentyn gael ei roi mewn gofal, neu beth ddylai ddigwydd pan fydd rhieni'n gwahanu. Bydd y penderfyniadau hyn yn effeithio ar deuluoedd – a gweddill y gymdeithas – am amser hir wedyn. Felly mae'n bwysig gwneud y penderfyniad gorau i bawb sy'n gysylltiedig, yn arbennig y plant.

Yn anffodus, mae llysoedd yn cymryd ychydig dros flwyddyn, ar gyfartaledd, i benderfynu a ddylai plentyn gael ei roi mewn gofal. Mae hyn yn llawer rhy hir. Mae'n bwysig cymryd amser i wneud y penderfyniad iawn, ond os cymerir gormod o amser i ddod i benderfyniad, gall y plant deimlo'n ansicr am eu dyfodol.

Mae plant hefyd yn dioddef os yw eu rhieni'n gwahanu ac yn mynd i'r llys i ddatrys anghydfodau, heb geisio dod o hyd i ffyrdd haws o ganfod atebion. Gall rhieni deimlo yn ddig ac wedi brifo ar ôl i'w perthynas ddod i ben, ond ni ddylid rhoi eu dicter â'i gilydd cyn anghenion y plant - mae'n well iddyn nhw ac i'r plant os ydyn nhw'n gallu dod i gytundeb yn wirfoddol.

Rydym yn cytuno â barn yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu fod yn rhaid i anghenion plentyn ddod yn gyntaf bob tro. Mae'n rhaid i ni ei gwneud hi'n haws gwneud penderfyniadau ynghylch gofal plentyn yn gyflymach yn y dyfodol, ac mae'n rhaid i ni ei gwneud yn haws i rieni setlo anghydfodau heb fynd i'r llys. Yn syml, rydym am wneud yn siŵr bod y System Cyfiawnder Teulu yn gweithio orau i blant.

Mae hyn yn golygu newid pethau fel bod lleisiau plant i'w clywed yn y llys a'u bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Dylai llysoedd ofyn i blant beth maen nhw ei eisiau ac esbonio iddyn nhw beth sy'n digwydd a pham. Ond dylai plant hefyd gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw fel nad ydyn nhw'n teimlo'n gyfrifol am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanyn nhw.

# Pan fydd rhieni’n gwahanu

Pan fydd rhieni’n gwahanu, fel arfer mae’n well i’r ddau riant fod yn rhan o ofalu am eu plant. Rydym am wneud yn siŵr bod rhieni’n cael help i gytuno sut y gall y ddau ohonyn nhw roi beth sydd orau i’w plant – nawr ac yn y dyfodol.

## Dod o hyd i ateb y tu allan i’r llys

Mae’n well os gall rhieni benderfynu sut i ofalu am eu plant ar ôl iddyn nhw wahanu heb fynd i’r llys. Bydd penderfyniad y byddan nhw’n ei wneud eu hunain efallai yn fwy tebygol o barhau. Bydd hefyd yn haws iddyn nhw newid eu trefniadau wrth i anghenion eu plant newid. Felly rydym am helpu rhieni i ddod i gytundeb heb fynd i’r llys yn y lle cyntaf (oni bai fod yna berygl i iechyd neu les plentyn).

Cyn gynted ag sy’n bosib, byddwn yn sefydlu system i helpu rhieni i ddeall pam ei bod yn well osgoi mynd i’r llys ac yn eu helpu nhw i ddod o hyd i ateb i’w anghydfod. Byddwn yn sefydlu gwasanaeth cefnogi dros y ffôn ac ar-lein i’w helpu nhw i ddeall sut i roi anghenion eu plant yn gyntaf.

Rydym am i rieni lunio Cytundeb Magu Plant.  Bydd y cytundeb hwn yn esbonio trefniadau ymarferol ar gyfer gofalu am eu plant. Bydd yn cynnwys cynlluniau i helpu’r plant gadw mewn cysylltiad ag aelodau eraill o’r teulu, eu neiniau a’u teidiau yn enwedig. Gall neiniau a theidiau fod yn bwysig iawn ym mywydau plant, yn enwedig pan fydd rhieni’n gwahanu. Byddwn yn annog rhieni i’w cynnwys yn y Cytundebau Magu Plant.

Os bydd angen rhagor o help ar rieni, byddwn yn eu hannog i gymryd rhan mewn rhaglen – cwrs sy’n dangos ei bod yn bwysig iddyn nhw roi anghenion eu plant yn gyntaf. Bydd yn esbonio sut y mae rhieni eraill wedi dod o hyd i atebion ac yn eu helpu i feddwl am sut y gall eu hanghydfodau effeithio ar eu plant.

Byddwn hefyd yn annog rhieni i drafod eu trefniadau gyda chyfryngwr – rhywun sy’n gallu gwrando heb gymryd ochr neb a helpu’r rhieni i wneud penderfyniad sy’n gweithio i’r plant.

Dim ond ar ôl i’r rhieni ystyried trafod eu trefniadau gyda chyfryngwr y gallan nhw fynd â’u hachos i’r llys, neu os oes rhywun o’r teulu mewn perygl o niwed.

## Dod o hyd i ateb yn y llys

Os bydd achos yn mynd i’r llys, byddwn yn ei gwneud yn haws dod i gytundeb yn gyflym ar sail anghenion y plant – nid ar sail dicter neu deimladau dolurus eu rhieni.

Byddwn yn gwneud proses y llys yn haws drwy greu un llys teulu ar gyfer Cymru a Lloegr. Er y bydd y llys teulu yn delio â phob achos, bydd yn gallu delio ag achosion symlach yn gyflymach.  Bydd y ffordd y bydd y llys yn gweithio hefyd yn haws i rieni ei deall.



Os nad yw rhieni'n gallu cytuno, bydd y llys teulu yn gallu gwneud gorchymyn ar gyfer y trefniadau i'r plentyn. Bydd hwn yn nodi'r trefniadau ymarferol ar gyfer gofalu am blant. Mae'n bwysig nad yw rhieni'n meddwl bod un rhiant wedi ennill a bod y llall wedi colli pan mae'n ymwneud â gofalu am eu plant. Bydd y gorchymyn bob amser yn rhoi anghenion y plant yn gyntaf ac yn cynnwys y ddau riant yn gofalu am eu plant (oni bai fod rheswm da pam na ddylai un rhiant fod yn ran ohono). Bydd y llys yn esbonio i rieni beth fydd yn digwydd os na fyddan nhw'n dilyn y gorchymyn, a bydd yn delio ag unrhyw broblemau sy'n codi. Er enghraifft, os yw gorchymyn yn dweud y dylai plentyn dreulio amser gyda'r ddau riant ac nad yw un rhiant yn helpu i wneud hyn, bydd y barnwr yn galw'r ddau riant yn ôl i'r llys yn gyflym.

Os nad yw rhieni'n gallu cytuno, bydd y llys teulu yn gallu gwneud gorchymyn ar gyfer y trefniadau i'r plentyn.

# Pan fydd plant yn cael eu rhoi mewn gofal

Mewn nifer fechan o deuluoedd, mae rhieni'n ei chael hi'n anodd gofalu am eu plant. Os gall hyn olygu bod lles y plentyn mewn perygl, gall eu gweithiwr cymdeithasol wneud cais i'r llys roi'r plentyn hwnnw mewn gofal. Mae pobl wedi arfer disgwyl y bydd y penderfyniadau hyn (a ddylai plentyn gael ei roi mewn gofal) yn cymryd amser hir. Nid yw'r System Cyfiawnder Teulu wedi rhoi digon o sylw i'r problemau y gall hyn ei achosi i blentyn. Nid yw hyn yn dderbyniol.

## Rydym am gael penderfyniadau yn gyflymach

Mae'n rhaid i ni leihau faint o amser y mae'n ei gymryd i'r llys wneud penderfyniad. Gall plant sy'n aros am benderfyniad am amser hir deimlo'n bryderus ac yn ansicr am yr hyn sy'n digwydd iddynt. Gall gorfod aros yn hir effeithio ar eu datblygiad a'i gwneud yn anoddach iddyn nhw ddod o hyd i gartref newydd os bydd yn rhaid iddyn nhw gael eu mabwysiadu yn y dyfodol. Gall mabwysiadu roi gwell cyfleoedd mewn bywyd i blant agored i niwed. Felly, pan fydd llys yn penderfynu y dylai plentyn gael ei fabwysiadu, mae'n bwysig bod hyn yn gallu digwydd mor gyflym â phosib, gyda chyn lleied â phosib o ofid i'r plentyn.

Yn y dyfodol, rydym am i bob penderfyniad gael ei wneud mewn llai na chwe mis. Bydd y llysoedd yn gwneud penderfyniadau yn gynt os yw'n bosibl, a dim ond os gallant esbonio pam ei bod er lles y plentyn iddyn nhw gymryd mwy o amser i wneud penderfyniad y byddan nhw'n cael cymryd dros chwe mis.

Er mwyn ei gwneud hi'n haws gwneud penderfyniadau yn gyflymach, byddwn yn:

- cyhoeddi rheolau am sut i osod amserlen ar gyfer cael penderfyniad a hyfforddi pobl sy'n gweithio yn y llysoedd ar sut i'w defnyddio;
- newid y gyfraith er mwyn i lysoedd ganolbwyntio ar y materion sy'n wirioneddol bwysig;
- defnyddio llai o adroddiadau gan arbenigwyr; a
- chael proses glir i'r gweithwyr proffesiynol ei dilyn.

## Rôl gliriach i farnwyr

Bydd gan farnwyr rôl gliriach o ran pennu dyddiadau ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu bodloni. Pan fo hynny'n bosib, yr un barnwr fydd yn delio ag achos o'r dechrau i'r diwedd. Ni ddylent arafu'r broses o ddod i benderfyniad drwy dreulio gormod o amser ar fanylion y cynllun gofal y mae gweithwyr cymdeithasol wedi'i baratoi ar gyfer plentyn. Y rheswm am hyn yw am nad cyfrifoldeb y llys yw cynlluniau gofal.

## Defnyddio adroddiadau arbenigwyr

Weithiau bydd y llys angen ceisio cyngor ychwanegol gan arbenigwyr cyn iddynt benderfynu a ddylai plentyn gael ei roi mewn gofal neu beidio. Ond yn aml, mae'r llys yn gofyn am ormod o adroddiadau gan arbenigwyr, a gall aros am y rhain eu hatal rhag gwneud penderfyniad cyflym. Mae hefyd yn golygu bod plant yn aml yn gorfod mynd i weld mwy nag un arbenigwr, ac maen nhw'n gorfod ateb yr un cwestiynau drosodd a throsodd. Gall hyn beri gofid iddyn nhw. Yn y dyfodol, byddwn ond yn caniatáu i'r llys ofyn am adroddiad gan arbenigwr os na fydd yn gallu gwneud penderfyniad heb yr adroddiad ac os nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar gael yn barod.

## Rôl gweithwyr cymdeithasol

Bydd gan weithwyr cymdeithasol rôl bwysig o ran lleihau faint o amser y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniad ynghylch gofal. Mae angen i'w hasesiad o'r plentyn a'u hadroddiad i'r llys fod o safon uchel, a dylid gael ei anfon i'r llys ar amser. Rydym am helpu i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cael eu hyfforddi ar sut i gyflwyno eu hasesiad i'r llys fel nad oes oedi gyda phenderfyniadau.

Bydd y newidiadau hyn yn cyflymu'r amser a gymerir i wneud penderfyniad ynghylch gofal. Bydd hefyd yn ei gwneud hi'n haws i blentyn gael ei fabwysiadu'n gyflym, os mai dyma yw'r peth gorau ar gyfer y babi neu'r plentyn hwnnw. Byddwn yn gwella'r ffordd y mae gweithwyr cymdeithasol a'r llys yn gweithio gyda'i gilydd i baratoi ar gyfer mabwysiadu, a byddwn yn edrych am ffyrdd o gyflymu'r broses o ddod o hyd i bobl i fabwysiadu plentyn.



# Beth nesaf?

Er mwyn i rai o'r newidiadau ddigwydd, bydd angen i ni newid y gyfraith. Mae'r broses hon yn cymryd amser, ond byddwn yn cychwyn arni yn 2012 a dylem weld rhai newidiadau pwysig erbyn 2013.

Ein cam nesaf fydd sefydlu'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu. Bydd y Bwrdd yn cynnwys bobl uwch sy'n gweithio yn y System Cyfiawnder Teulu. Bydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y newidiadau rydym wedi sôn amdanynt yma yn digwydd mewn gwirionedd. Oherwydd y bydd y newidiadau hyn yn cynnwys nifer o wahanol fathau o weithwyr proffesiynol, un o dasgau pwysicaf y Bwrdd fydd cael pobl i weithio gyda'i gilydd i newid y system. Heb hyn, byddai'n amhosib cael penderfyniadau ynghylch gofal mewn chwe mis.

Mae Cafcass a Cafcass Cymru yn sefydliadau yng Nghymru a Lloegr sydd eisoes yn helpu i wneud yn siŵr bod y llysoedd yn meddwl am beth sydd orau i'r plant. Bydd ganddynt, yn ogystal â sefydliadau eraill, rôl bwysig yn y system newydd o hyd. Mae Bwrdd Pobl Ifanc Cafcass wedi gwneud yn dda o ran siarad am faterion plant. Felly, byddwn yn gofyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu gael fersiwn o'r Bwrdd ar gyfer pobl ifanc cyn gynted â phosib er mwyn i blant a phobl ifanc fod yn rhan o'r newidiadau i'r system o'r cychwyn. Bydd y Bwrdd yn dod o hyd i'r ffyrdd gorau o helpu plant o bob oed i ddeall y System Cyfiawnder Teulu a sut y mae'n effeithio arnynt. Bydd hefyd yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael dweud eu dweud ynghylch sut rydym yn gwneud newidiadau i'r system bresennol.

Er y bydd yn cymryd mwy o amser na hyn i wneud yr holl newidiadau rydym ni am eu gwneud, rydym wedi ymrwymo i greu system well i blant. Byddwn yn creu system sy'n gyflymach, sy'n gwrando ar anghenion plant ac sy'n eu rhoi nhw yn gyntaf. Rydym am i bob plentyn gael plentyndod diogel a saff a chael cartref sefydlog i fyw ynddo.